

Castell y Ddrycin

Roderick Hunt Alex Brychta



DRAKE





Roedd rhaid i rieni Nadim fynd i ffwrdd, felly daeth Nadim i aros yn nhŷ Cad a Dids.

Roedd ganddo fag â'i holl bethau, ond roedd ganddo focs mawr hefyd.

“Be sy yn y bocs mawr ’na?” holodd Dids.


“Aros iti gael gweld,” meddai Nadim.



Aeth y plant i ystafell Cad. Roedd y bocs mawr gan Nadim. Agorodd o a thynnu'i gyfrifiadur allan.

“Gwych!” meddai Dids.

“Mae gen i gêmâu cyfrifiadur newydd,” meddai Nadim. “Cawn ni chwarae efo nhw wedyn. Mae gen i rywbeth arall i chwarae efo fo.”




Roedd gan Nadim robotiaid.

“Ardderchog,” meddai Onw. “Rydw i'n mynd i gael un fel hyn. Hwn ydi'r gorau gen i.”

Roedd gan Cad a Dids robot hefyd. Aethon nhw i'w nôl.

“Cawn ni amser ardderchog!” meddai Nadim.



Daeth Wilff i chwarae. Roedd tegan newydd ganddo. Llong ofod oedd hi.

Chwaraeodd Cad, Wilff ac Onw â'r teganau i gyd. Dywedodd Onw ei fod am fod yn robot pan fyddai'n fawr.

"Fedr pobl ddim bod yn robotiaid," meddai Cad.



Chwaraeodd Dids a Nadim efo'r cyfrifiadur. 'Castell y Ddrycin' oedd enw un o gêmiau newydd Nadim. Edrychai'n gyffrous.

"Mae'n eitha anodd," meddai Nadim. "Dangosa i ichi sut i chwarae, yna cewch chi gyfle."

"Mae'n edrych yn wych," meddai Dids.



Roedd Nadim yn chwarae Castell y Ddrycin.

“Rhaid ichi fynd drwy bob ystafell,” meddai.

“Ond mae perygl ym mhob un. Edrychwch.”


Yn yr ystafell gyntaf, agorodd y llawr. Gallech syrthio drwyddo, ond wnaeth Nadim ddim.

“Roedd hynny’n glyfar,” meddai Dids.

Roedd Nadim yn dda ar y cyfrifiadur. Aeth drwy bob ystafell yn ddiogel.

“Caiff Dids gyfle nesaf,” meddai Nadim. “Cewch chi i gyd dro os mynnwch chi.”

“Rwy’t ti’n ardderchog,” meddai Dids. “Fyddda i ddim yn dda iawn pan ga i dro.”



Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

“O na!” meddai Cad. “Dydw i ddim eisio i'r allwedd ddisgleirio. Dydw i ddim eisio antur hud. Rydw i eisio chwarae ar gyfrifiadur Nadim.”

“Dydw i ddim eisio antur hud chwaith,” meddai Dids.

“Rydw i'n meddwl 'mod i'n gwybod ble bydd hi.”



“Ble rwyd ti'n meddwl y bydd hi?” gofynnodd Onw.

“Castell y Ddrycin,” meddai Dids.

“O na!” meddai Wilff. “Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni'n mynd i hoffi'r antur yma. Mae Castell y Ddrycin yn llawn peryglon.”

“Diolch byth fod Nadim efo ni,” meddai Cad.



Aeth yr hud ddim â nhw i mewn i'r castell.
Aeth â nhw i anialwch. Roedd Castell y Ddrycin o'u
blaenau.

“Pam nad aeth yr hud â ni i mewn i'r castell?”
meddai Wilff.


“A ble mae Nadim?” gofynnodd Dids.



“O na! Robotiaid anferth,” meddai Wilff. “Rhedwch!”

Rhedodd y plant nerth eu traed. Doedd y
robotiaid ddim yn gyflym iawn, ond roedd llawer
ohonyn nhw.

“Bydd rhaid inni fynd i mewn i Gastell y Ddrycin,”
meddai Cad. “Dowch!”



Gwelodd y plant bont. Dyna'r unig ffordd i'r castell.

“Dyma'r ffordd i mewn,” meddai Wilff. “Fedr y robotiaid ddim croesi hon.”

“Gobeithio ei bod hi'n ddiogel,” meddai Dids. “Mae'n bell iawn i ddisgyn.”

Yn sydyn, dechreuodd y bont agor yn y canol.

“Neidiwch!” galwodd Dids. “Os agorith hi ormod, chroeswch chi byth.”

Rhedodd Cad ac Onw nerth eu traed. Yna neidion nhw drosodd.




Roedd Wilff yn dal ar yr ochr arall. Roedd y bwlch yn lledu o hyd.

“Brysia, Wilff!” galwodd Cad. “Llwyddi di’n hawdd. Rhed nerth dy draed a neidia. Cydiwn ni ynot ti.”

Rhedodd Wilff a neidio.

“Hwrê! Llwyddodd o!” gwaeddodd Onw.



Roedd llidiart y castell yn cau. Roedd yn dod yn is ac yn is. Rhedodd y plant nerth eu traed.

Rhedodd Dids at y llidiart a rholio oddi tano.

“Brysiwch!” gwaeddodd. “Fiw inni gael ein cau allan o’r castell.”



Cael a chael oedd hi. Yna caeodd y llidiart â sŵn uchel.

Doedd Cad ddim yn mwynhau'r antur. Roedd yn waith caled.

“Dydi hi ddim yn deg,” meddai. “Antur Nadim ydi hon a dydi o ddim yma.”

Daeth y plant at dri drws. Wydden nhw ddim p'run i'w agor.

“Rydw i'n meddwl y dylen ni fynd drwy hwn,” meddai Wilff. “Mae'n edrych fel twll clo.”

Gwthiodd y drws a dechreuodd agor.

“Dowch! Awn ni drwyddo,” meddai.



Caeodd y drws ac roedden nhw mewn ystafell yn llawn drychau. Roedd pob drych yn gwneud iddyn nhw edrych yn ddoniol.

Mewn un drych roedden nhw'n dew ac yn grwn. Mewn un arall roedden nhw'n dal ac yn denau. Mewn un arall roedd eu pennau'n ddoniol.

Roedd pawb yn rhoio chwerthin am eu bod yn edrych mor ddoniol.

“Mae gen i ben anferth a chorff bach, tenau,” chwarddodd Wilff.

“Gobeithio na fyddwn ni'n aros fel hyn,” meddai Dids. “Beth fyddai Mam a Dad yn ei ddweud?”



Edrychodd Onw mewn un drych ond welai o ddim byd.

“Dyna ryfedd,” meddai. “Dowch i edrych ar y drych yma, bawb. Dydi o ddim yn gweithio.”

“Nid drych ydi o,” chwarddodd Dids. “Drws ydi o.”



Yn y drws roedd anghenfil. Roedd Cad, Dids a Wilff wedi dychryn. Rhedon nhw ymaith. Ond arhosodd Onw. Doedd o ddim wedi dychryn o gwbl.

Roedd o bob amser wedi bod eisiau antur ag anghenfil ynnddi, a doedd yr anghenfil hwn ddim yn edrych yn ddychrynlyd iawn.



Ceisiodd yr anghenfil ddychryn Onw. Neidiodd i fyny ac i lawr a sgrechian, "Aaaachch!"

"Aaaachch!" sgrechiodd Onw yn ôl.

"Wyt ti ddim wedi dychryn?" gofynnodd yr anghenfil.

"Dim o gwbl," meddai Onw. "Rydw i wedi bod eisio cyfarfod anghenfil fel ti ers tro."



Roedd yr anghenfil yn gyfeillgar. Dywedodd wrth y plant fod rhaid iddyn nhw fynd drwy ddrysle.

"Be ydi drysle?" gofynnodd Onw.

Dangosodd yr anghenfil fap o'r drysle iddyn nhw. Dangosodd iddyn nhw sut i fynd drwyddo.


"Peidiwch â mynd ar goll," meddai'r anghenfil.



Aeth y plant i mewn i'r drysle. Yn fuan roedd wal o'u blaenau.

“Gwnaethon ni droi'r ffordd anghywir y tro diwetha,” meddai Cad. “Rhaid inni fynd yn ôl!”

Cofiodd Wilff am fap yr anghenfil. “Rydw i'n meddwl 'mod i'n gwybod y ffordd,” meddai. “Dilynwch fi.”



Cyrhaeddodd y plant neuadd â sgwariau ar y llawr. Roedd rhifau ar rai sgwariau.

Roedd drws ym mhen draw'r neuadd, yn uchel yn y wal.

“Sut medrwn ni gyrraedd y drws?” gofynnodd Onw.

“Hen dro nad ydi Nadim yma i'n helpu,” meddai Cad.



Roedd rhaid i'r plant groesi'r rhifau a sefyll ar sgwâr gwag. Byddai'r un cywir yn mynd â nhw i fyny at y drws. Byddai'r un anghywir yn eu gollwng drwy'r llawr.

“P’run ydi’r sgwâr cywir?” gofynnodd Dids.


Yn sydyn, meddai Cad, “Gwn i.”

Cychwynnodd Cad. “Dyma’r ffordd,” meddai. “Y cyfanswm y ffordd yma ydi chwech.”

“Sut gwyddost ti fod y ffordd yma’n arwain at y sgwâr iawn?” gofynnodd Dids.


“Cyfanswm y lleill ydi un deg pump,” meddai Cad.

“Dydw i ddim yn deall,” meddai Dids.




Roedd Cad yn iawn. Cyrhaeddodd y plant y drws.
Edrychodd Dids ar y llawr. "Gwela i," meddai.
"Cyfanswm y sgwariau ydi un deg pump pa ffordd
bynnag ewch chi. Dim ond cyfanswm un ffordd ydi
chwech."

"Gwylia rhag iti syrthio," meddai Cad.



Cyrhaeddwn nhw ystafell newydd. Cychwynnodd
robot cas yr olwg tuag atyn nhw.


"Help!" galwodd Onw. "Mae'n dod amdanon ni!"
Daeth y robot yn nes. "Dyna od," meddai Dids.
"Mae'r un ffunud â thegan Nadim."



Yn sydyn, dechreuodd Dids chwerthin. “Does gen i ddim ofn y robot yma,” meddai. “Dowch, bawb,” galwodd. “Helpwch fi i wthio.”

Rhedodd at y robot a'i wthio. Helpodd y lleill. Dechreuodd pen y robot agor.

“Edrychwch pwy sydd y tu mewn,” gwaeddodd Onw.




Roedd Nadim yn eistedd yn y robot.

“Dyna glyfar, Dids,” meddai. “Sut gwyddet ti 'mod i i mewn yma?”

“Sgwennaist ti stori am y robot yma yn yr ysgol,” meddai Dids.

“Da iawn, Dids,” meddai pawb.



Disgleiriodd yr allwedd hud ac roedd yr antur ar ben. “Hen dro,” meddai Nadim. “Roedd yn braf bod yn Geidwad Castell y Ddrycin.”

“Ni oedd yn gorfod mynd drwy’r castell, nid ti,” meddai Cad. “Cadw’r cyfrifiadur ’na. Cawn ni gêm bêl-droed!”

Castell y Ddrycin



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 9

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws

Pïod Cam 8
Y drefn ddarllen a
gymeradwyir:

Yr Herwgiywyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd



Pïod

Pïod Cam 9
Y drefn ddarllen a
gymeradwyir:

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
⑤ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
⑥ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-323-7



ISBN 0 86 174323 7

DRAKE

9 790861 743239